# Iaith Clai | Artistiaid yn Sgyrsio

Curadur: Ceri Jones
Cynorthwyydd Prosiect: Rhian Wyn Stone
Artistiaid: Anna Noël, Micki Schloessingk, Anne Gibbs, Justine Allison, Ingrid Murphy, Kate Haywood
Ffilm gan Siôn Marshall-Waters

---

[Ceri Jones] Iaith Clai: rydyn ni i gyd yma i siarad am Iaith Clai ac rydyn ni i gyd yn ein hadnabod ein gilydd ond beth am i ni cyflwyno ein hunain, ie? Dyma:

Ingrid Murphy, Anne Gibbs, Kate Haywood, Justine Allison, Anna Noël, Micki Schloessingk, Rhian Wyn Stone a Ceri Jones. Mae wedi bod yn hyfryd gweithio â'r bobl yma i gyd.

Fe ddechreuaf i drwy rannu ychydig ystadegau â chi a rhai sylwadau o'r Llyfrau Ymwelwyr ac ati:

Oherwydd rwy'n meddwl fod yr hyn rydyn ni wedi'i wneud wedi bod yn rhyfeddol. Felly, teitlau'r sioeau, dyna sain ffantastig sydd i'r rhain:

Adrodd Straeon, Pridd, Tân a Halen, Llonydd, Llinellau Newidiol, Olion, Gweledig ac anweledig. Onid ydi hynna'n rhyfeddol?

27 o arddangosfeydd i gyd, 7 lleoliad, dros 275 o weithgareddau ymrwymiad sy'n drawiadol a mwy na 140,000 o ymwelwyr.

Mae yna adolygiadau yn y *Ceramic Review*, Taflen Newyddion yr Artistiaid, a darn yn y *South Wales Potters' Journal*, y *Northern Potters' Journal*, *Craft Arts International*, *Disability Arts Wales Online*, CCQ a Chymru Ar-lein. Dydi hynny ddim yn ddrwg.

Felly roedd arnaf i eisiau darllen hyn i chi, heb fod mewn unrhyw drefn arbennig, ac mae o amrywiaeth eang o leoliadau, felly adborth o sylwadau ymwelwyr neu lyfr ymwelwyr am eich holl sioeau gwahanol chi.

"Roeddwn wedi fy syfrdanu"

"Yn ysgogi'r meddwl, yn sicr".

Mae wedi bod yn ardderchog, fe ddaethon ni â'n 4 plentyn – i gyd o wahanol oedrannau ac maen nhw i gyd wedi gwirioni.

Ardderchog, Cyfareddol a hynny gan rywun o Gymdeithas Celfyddydau Cyfoes Cymru.

Wedi mwynhau. Wedi gwneud i mi wenu.

Dyma'r hwyl mwyaf i mi ei gael mewn arddangosfa ers hydoedd. Llawer i feddwl amdano. Wedi disgwyl y byddwn yn rholio fy llygaid ac yn twtian ond roeddwn i'n ei hoffi'n fawr iawn.

Llawer o ddiolch am fy ngwahodd i ysgrifennu rhywbeth ar gyfer y catalog. Roedd yn anrhydedd yn wir cyfarfod â gwneuthurwr mor ddawnus ac ysgrifennu amdani a chyfrannu rhywbeth tuag at y gyfres fendigedig Iaith Clai.

Ni fydd celfyddyd fel hyn yn digwydd yn aml iawn. Trydar oedd hynna, roedd yna lawer ohonyn nhw, wnes i ddim cyfri – trydar o bob un o'r orielau…

Rydw i wrth fy modd yn gwneud hyn. Oes raid i ni fynd adref?

Roedd y gweithdai, yn syml iawn, yn wirioneddol ryfeddol. Byddai'r artistiaid yn setlo i wneud a siarad ac roedd y myfyrwyr wedi'u swyno. Fe helpodd yr ymweliad yn wir i godi cwestiynau diddorol ynglŷn ag arfer proffesiynol a dulliau gwneud. Stwff gwirioneddol ardderchog.

Mae gwaith yr artist yn rhagorol, yn amheuthun ac wedi'i awgrymu'n ddireidus, mae yna gymaint o feistrolaeth o ddeunydd a pherthnasedd yma fel bod edrych arno'n codi ofn.

O wrando arni'n siarad bu'n rhaid i mi ailymweld â'r gwaith ac edrych drachefn ar y ffordd y'i gwneir.

Wrth edrych ar y plant fe sylweddolais, o weld eu bod wedi ymgysylltu cymaint, fod hyn yn rhywbeth mawr. Mae ganddyn nhw ystod eang o ofynion arbennig. Fe wnaethon ni i gyd nodi fod un ferch na fyddai byth yn cyffwrdd â phaent na dim sy'n 'stomplyd' , â ffocws llwyr ar wneud ei hanifail clai. Er mawr syndod i'r athro roedd hi'n un o'r disgyblion mwyaf canolbwyntiedig yn y grŵp. Roedd yna synnwyr gwirioneddol o falchder â'r darnau a wnaethon nhw. Mae wedi bod yn brofiad ffantastig i'r plant – ni allai fod wedi mynd yn well.

A hyn, dim ond i orffen: "Ar fy ffordd adref, yn teimlo'n isel, meddyliais 'Fe wn i, fe alwaf i yn yr Oriel a gweld y sioe eto – fe wnaiff godi fy nghalon.."

Dyna hyfryd ac y mae yna lawer mwy fel hyn… felly dyna ni, llongyfarchiadau.

[Ceri Jones] Fe allech chi i gyd fod â phethau, pethau llosg yr hoffech eu rhannu a'u dweud, a dydw o ddim am i'm cwestiynau i atal hynny rhag digwydd. Felly os byddwn ni'n mynd i gyfeiriad nad ydych chi'n hapus ag o, dwedwch. Mae gen i ambell i gwestiwn dim ond i roi cychwyn i bethau:

Heb fod mewn unrhyw drefn arbennig, ond os hoffai rhywun ddechrau -

Allwch chi gofio eich ymateb cyntaf pan gawsoch eich gwahodd i gael arddangosfa fel rhan o Iaith Clai?

[Micki Schloessingk] "Rwy'n meddwl mai syndod oedd hynny, mae'n debyg – fod rhywun wedi gofyn i mi ac yn enwedig pan ddechreuoch chi ddweud wrthym ni/wrthyf i beth fyddai hynny'n ei olygu. Roedd fel pe bae chi â diddordeb gwirioneddol, yn wirioneddol ymgysylltiedig ac wedi meddwl yn ddwfn am y cwbl. Sut allech chi mewn gwirionedd gynnal yr holl gynhaliaeth... dyna beth oedd yn rhyfeddol – yr hyn roeddech chi'n ei gynnig mewn gwirionedd o ran cefnogaeth barhaus, cefngaeth ariannol ac yn y blaen.

Positif felly? Positif iawn, ie.

[Anne Gibbs] I mi roedd yn gyffrous iawn, roeddwn i'n wironeddol falch. Mae'n gydnabyddiaeth o'ch sgiliau hefyd a'ch gwneud. Roeddwn i'n hynod falch fy mod wedi cael y gwahoddiad ac, fel y dwedwch chi, cael cefnogaeth ariannol ac, mewn llawer ffordd, rhoi sgyrsiau drwy gydol y flwyddyn i wahanol brifysgolion. Roeddwn yn meddwl yn gyffredinol ei fod yn brofiad gwirioneddol bositif.

[Kate Haywood] I mi fy ymateb oedd y cyffro a'r anghrediniaeth fod mod wedi fy newis gan mai fi oedd yr olaf yn y 2 grŵp felly roeddwn i eisoes wedi gweld llawer o'r hyn roedd y prosiect yn ei olygu. Rwy'n tybio ei fod yn gwbl ffres i chi, on'd oedd, i ddechrau, ond i mi fe wyddwn i ychydig mwy am yr hyn oedd i ddod. I mi roedd yna 3 blynedd ers i mi raddio, roeddwn i yn y cyfnod lle'r oeddwn wedi gwneud llawer o ymchwil ac roeddwn i'n barod i fynd ac i roi cychwyn arni. Fe roesoch chi'r framwaith hwnnw i mi a'r holl gefnogaeth i osod popeth efo'i gilydd. Roedd yr amser i mi'n rhyfeddol, felly diolch.

[Justine Allison] Rydw i'n teimlo felly hefyd. Roedd fel anghrediniaeth, fel edrych dros eich ysgwydd a meddwl 'a ydych chi'n siarad am rywun arall?' Y gydnabyddiaeth a'r gefnogaeth yr holl ffordd drwodd.

[Ingrid Murphy] Ofn (nid mewn ffordd negyddol) ofn iach, ofn heriol, yn yr amser y mae'n ei gymryd i gynhyrchu cymaint â hynny o waith ac mae'n ddisgwyliad cyffrous gan ei bod yn anodd pan ydych chi'n gweithio'n llawnamser mewn addysg, i gael ffocws clir ar rywbeth sydd y tu allan i'r cylch gwaith hwnnw ac felly fe roddodd gyd-destun ffantastig i gynhyrchu corff o waith ar gyfer gofodau penodedig oherwydd weithiau byddwch yn gwneud gwaith yn ddyfaliadol ar gyfer cyfleoedd, felly roedd gallu gweithio mewn ffordd wahanol yn eithaf braf, mewn gwirionedd.

[Ceri Jones]: Oeddech chi'n llawn ofn Anna?

[Anna Noël] Wedi dychryn am fy mywyd! Fe fyddwn i'n meddwl a ydyn nhw wedi gwneud camgymeriad? Roeddwn i'n meddwl y bydden nhw'n sylweddoli ar unrhyw funud eu bod wedi gwneud camgymeriad yn gofyn i mi.

[Ceri Jones]: Chi oedd y cyntaf i gychwyn, on'd oeddech chi? Eich arddangosfa chi oedd y gyntaf, gydag amseriad cyfyng…

[Anna Noël] Roedd yr amseriad yn gyfyng. Roedd yn anodd i mi ddod allan o'r arfer normal o wneud pethau pan fyddwch yn meddwl am gostau ac amser ar gyfer orielau a byddwch yn cael eich cyfyngu, o ran yr ochr yna i bethau. Ac i gael ffocws cwbl wahanol ar wneud grŵp o weithiau, i orfod newid eich meddwl yn sydyn o un math o waith i arddangosfa roedd hi'n anodd iawn i mi ac yn heriol yn y rhychwant tyn hwnnw. Pe bawn i wedi gwybod y byddai'r arddangosfa gyfan fel yna, rwy'n meddwl y byddwn i wedi dymuno bod yn olaf…yna fe allwn fod wedi dewis pytiau dros amser ond roedd gorfod newid eich ffordd o feddwl o un math o waith i arddangosfa'n anodd ac yn heriol i mi. Ond roedd hi'n ddiddorol iawn siarad â phobl ac adolygu eich gwaith mewn ffordd wahanol a pha bosibiliadau y gallech symud ymlaen iddyn nhw....

[Ceri Jones] Roeddech chi i gyd wedi arddangos gwaith o'r blaen ond a fu yna unrhyw sioeau solo cyn hynny?

[Justine Allison] Na, dim erioed.

[Anna Noël] … mewn orielau masnachol ond nid fel hyn lle roedd y pwyslais ar yr edrychiad nid faint o werthiannau y gallwch eu gwneud, sy'n safbwynt cwbl wahanol.

[Justine Allison] Mae gwneud y gwaith i'w ddangos yn wirioneddol ryddhaol, yn frawychus hefyd. Bydd yn agor popeth.

[Micki Schloessingk] A'r ffaith mai arddangosfa deithiol oedd hi – roedd yna deimlad gwahanol iddi gan y byddai'r gwaith yn cael ei weld am gyfnod hir tra'n aml byddwch yn gweithio'n galed ar gyfer

arddangosfa a fydd mor fyr, ac yna bydd y gwaith hwnnw i gyd am gyfnod cyfyngedig. Felly roedd hynny'n rhan ardderchog ohono ac yn enwedig hefyd ei bod yn mynd i leoedd eraill yng Nghymru ac roedd y ffaith ei bod yma'n teimlo'n arwyddocaol iawn.

[Ingrid Murphy] Rwy'n meddwl hefyd y gallwch ddangos corff o waith nad yw'n golygu o angenrheidrwydd eich bod yn cael eich dewis am y peth rydych chi'n adnabyddus amdano. Os ydych chi mewn sioe grŵp neu rywbeth felly cewch eich dewis yn aml oherwydd fod ar bobl eisiau'r math yna o ddarn nodweddiadol ond pan fydd gennych gorff o waith y byddwch yn ei wneud mae gennych y fantais o symud i dir na fyddwch yn gallu ei ddangos bob amser o angenrheidrwydd…bydd cael solo'n rhoi'r cwmpas hwnnw i chi i weithio ar draws corff o waith sy'n creu deialog yn ei fysg ei hun mewn cyferbyniad â'r hyn y gallech chi fod yn hysbys amdano.

[Ceri Jones]: Felly a wnaeth hynny olygu eich bod wedi mynd i gêr gwahanol neu ffordd wahanol o feddwl oherwydd eich bod yn meddwl amdano fel corff yn hytrach na darn sengl neu grŵp?

[Ingrid Murphy] Do, a'r ffordd y bydd y gwaith yn gweithio mewn perthynas â'i gilydd ac rwy'n meddwl fod gwybod am y gofodau ymlaen llaw yn wirioneddol gyffrous oherwydd eich bod yn gwneud â'r gofodau hynny dan sylw ac ni fyddwch yn cael y cyfle i wneud hynny bob amser.

[Anne Gibbs] – Mae'n ddiddorol eich bod yn dweud hynny oherwydd pan ofynnoch chi i mi i ddechrau, rydw i mor hoff o'r oriel hon fel bod fy mhroses feddwl i'n ddim ond gwneud ar gyfer y gofod penodol hwn a wnes i ddim ystyried mewn gwirionedd yr holl fannau gwahanol eraill. Meddyliais y gwnaem ddatrys hynny pan fyddai'n digwydd ac roedd hynny'n naïf iawn ar fy rhan i felly roedd hynny'n wers ddiddorol i mi ei dysgu oherwydd bu'n rhaid i mi addasu a golygu a newid yn ddifrifol y ffordd y byddai fy ngwaith yn cael ei arddangos a'i dderbyn, a dweud y gwir. Rwy'n meddwl felly fod fy ffocws i'n wahanol iawn gan fy mod yn meddwl am yr un lle'n unig a dyna fo. Roedd hynny felly'n wers a ddysgwyd i mi ond mewn ffordd dda gan fy mod yn meddwl am ddodrefn a golau ac wrth gwrs pan fyddwch yn mynd i Ganolfan Serameg Aberystwyth, dyweder, bocsys yw'r cwbl, cabinetau yn hytrach felly bu'n rhaid i mi olygu'n llym yr hyn oedd i'w roi yn y sioe. Felly roedd yna gwestiynau lawer y byddech yn eu rhoi i chi eich hun drwy gydol y flwyddyn gyfan, a dweud y gwir – sut y bydd pethau i gael eu dangos.

[Ingrid Murphy]- .... mae'r gwahaniaeth hwnnw mewn gofodau'n wirioneddol ddiddorol, on'd ydi, oherwydd dyna breswylfan y bonheddwyr - Llantarnam Grange ac yna'r gofod ciwb gwyn yn Rhuthun.

[Anne Gibbs] – … a'r plycio a'r addasu...

[Ingrid Murphy] – felly roeddech yn dysgu llawer iawn am eich gwaith, mewn gwirionedd ...

[Anne Gibbs] – oherwydd fod Rhuthun yn ofod enfawr i mi a minnau'n gwneud pethau bach roeddwn i'n meddwl y bydde nhw'n yn mynd ar goll, felly fe roddwyd fy enw'n llawer mwy ar y wal!!!! … Roedd hynny'n brofiad diddorol.

[Justine Allison] – Rwy'n meddwl fod gwneud ar gyfer y gofod hwn yn ardderchog oherwydd fe wnes i fel y gwnes ti, fe feddyliais am hyn a phob tro y deuwn i ymweld byddai'n crebachu yn ei faint ac yna dros y mis nesaf o beidio â dod, yn sydyn byddai'n tyfu a minnau'n meddwl pam ei fod yn gwneud i mi deimlo fel hyn. Yna fe ddown i mewn a byddai popeth yn iawn a minnau'n meddwl 'O'r gorau, fe ellir ei wneud', ac yna byddwn yn ymadael eto ac roedd yn tyfu'n barhaus.

Roedd yn eithaf sialens yn Aberystwyth, ond fe wnes i fwynhau hynny'n eithaf. Cabinetau amgueddfa oedden nhw ac eto roedd yn eithaf cyffrous.

[Ceri Jones] – Rwy'n cofio i ti deimlo'n eithaf pryderus am Aberystwyth gan ei fod yn bell oddi wrth unrhyw oriel

[Justine Allison]- Ac roedd yna'r busnes lliw hefyd, a byddai'r golau'n newid y lliw. Fe weithiodd pob gofod yn wirioneddol dda, a dweud y gwir. Fe newidiodd agweddau pob sioe mewn ffordd bositif.

[Rhian Wyn Stone]-Roedd hi'n wironeddol gyffrous gweld sut y byddai'r arddangosfeydd yn newid gyda phob lleoliad, ei weld o'r ochr weithio, a gweld sut y gwnaethoch chi i gyd addasu iddo fo. Gwirioneddol hyfryd.

[Justine Allison] – Roedd pob gofod mor wahanol.

[Anne Gibbs] – Gan eich bod chi yn y brif oriel, Ingrid

[Ingrid Murphy] – Roedd hynny'n foment bryderus braidd. Fe aeth Ceri a minnau i'w gweld ym mis Mawrth, ac roedd y sioe yn dal ymlaen yn Llantarnam, ac felly pan aethon ni i'w gweld ac rydych chi i gyd, mae'n amlwg, mor gyfarwydd â'r lleoedd hyn, felly dyna lle'r ydw i'n mynd i'w gweld yn Llantarnam ac yna fe aem ni i ymweld â'r un yn Aberystwyth ac roedd y Sioe Gelfyddyd Brydeinig Fawr yno ac roedd yno tua 17 o artistiaid Prydeinig blaenllaw a doedden nhw ddim yn ffitio yno! Fe aethom ni'n welw iawn pan welson ni faint y gofod, oherwydd ar y pryd roedden ni'n credu ei fod ddwywaith y maint yr oedd o. Dyna ddywedodd hi wrthyf i – celwydd oedd hynny! Roedd bum gwaith yn fwy.

Roedd Mawrth i Fai yn lawer o waith, gorfod ail-feddwl???

[Ceri Jones] – Roedden ni'n hyderus iawn, rwy'n meddwl, y byddai dy waith di'n ei lenwi!

A'r hyn oedd yn ardderchog oedd y gallem ni adeiladu gofodau ar gyfer rhai o'r darnau ac felly roedd yn wirioneddol ddiddorol gweld rhai o'r darnau a oedd wedi bod i gyd yn yr un ystafell yn Rhuthun, er enghraifft, yn sydyn â'u gofod eu hunain ac fe roddodd hynny bersbectif a phresenoldeb cwbl wahanol iddyn nhw ac fe weithiodd yn hyfryd… felly roedd hynny'n grêt.

[Ingrid Murphy] – Roedd yn brofiad ffantastig cael y cyfle i allu mynd i mewn i'r gofod hwnw â chi a Ffion a cherfio'r gofod yn llythrennol fel yr oedden ni'n gweld yn dda, felly roedd hynny mor grêt i fod mor gymhwysol a chael y cyfle hwnnw i roi'r darnau ymdrwythol hynny ar eu pen eu hunain yn gyfangwbl. Roedd yn grêt – yn ffantastig gallu gwneud hynny.

[Anne Gibbs] – Ac yr oedd yn digwydd yr un adeg â'r ŵyl.

[Ingrid Murphy] –Roedd yn brofiad hyfryd hefyd oherwydd maen nhw wedi cael llawer o weithdai allanol a ddaeth i weithio ag o oherwydd yr ŵyl, oherwydd yr amseriad, felly i lawr y grisiau yn y cyntedd roedd casgliad ffantastig o ymatebion i'r sioe wedi'u gwneud gan y gymuned ffoaduriaid, plant ac ati, felly fe aethom ni i agoriad hwnnw ac roedd hynny'n wirioneddol hyfryd. Oherwydd amseriad hynny a'n bod yn y prif ofod roedd llawer o wahanol ddimesiynau iddo hefyd. Roedd yn ffordd fendigedig o ddiweddu'r daith, a dweud y gwir.

[Anne Gibbs] - oh, felly dyna oedd yr un olaf i chi?

[Ingrid Murphy] - Ie. Ac roedd cael hynny yn yr ŵyl yn fendith wirioneddol. Roeddwn i braidd yn bryderus, a dweud y gwir – roedden ni ein dwy fymryn yn bryderus am y 'clientelle' ceidwadol traddodiadol a fydd yn mynd i'r ŵyl ac am natur y gwaith ond na, roedd yn ardderchog.

[Ceri Jones] – i mi roedd hynny'n teimlo fel cryfder enfawr y daith – er eich bod chi i gyd wedi gwneud cyrff o waith gwirioneddol gydlynol roedden nhw'n edrych mor wahanol mewn gwirionedd pan gawson nhw eu haildrefnu neu eu hailosod mewn gwahanol ofodau ac yna daeth y gwahanol gryfderau i'r amlwg. Gan fy mod yn meddwl am beth o'ch gwaith – y ffordd y gwnaethon ni osod rhai o'r darnau tawelach ar fath o silff â llifolau yn Rhuthun, ac yna roedd yna gymaint o sylwadau fod pobl yn sylwi ar y darnau tawelach hyn a'u prydferthwch – roedd gallu gwneud hynny'n gryfder gwirioneddol, rwy'n meddwl. Fe wn i fod hynny'n wirioneddol heriol ar y pryd a hynny'n poeni rhai pobl yn fwy nag eraill. Roeddwn i'n wirioneddol hyderus bob amser fod y sioeau'n mynd i edrych yn fendigedig ac yn mynd i weithio â'r gofodau.

[Ceri Jones] – Oedd gennych chi ffefryn, Micki?

[Micki Schloessingk] – Wel nag oedd, roedd hi'n hawdd i mi, rwy'n meddwl, oherwydd fe wnaethoch chi feddwl am y deunydd silffoedd a oedd wedi'i ddefnyddio mewn arddangosfa o bensaernïaeth Japaneaidd oherwydd doedd gen i ddim syniad. Dydw i ddim cystal, dydw i ddim yn credu fy mod yn meddwl cymaint am… wnes i ddim meddwl cymaint efallai oherwydd i Ceri ddweud fod gennym ni ddeunydd silffoedd neis y gallech eu defnyddio gan fod iddo'r estheteg Japaneaidd hwnnw. Ni allaf i ddioddef pan fydd pethau'n edrych fel pe baen nhw'n wledig ond nid oedd iddo'r estheteg honno, roedd yn eithaf talpiog. Roeddwn i braidd yn bryderus i ddechrau ei fod braidd yn arw ond roeddwn yn ei hoffi oherwydd fod ganddo ei ymylon metel a phopeth ac fe drefnoch chi i'r cwbl gael ei gludo i lawr yma felly rwy'n meddwl i ni ddefnyddio'r un strwythur hwnnw yn y rhan fwyaf o leoedd. Mae gen i deimlad na ddigwyddodd hynny yn Aberystwyth oherwydd, am ryw reswm, ni allwn i fod yno. Doeddwn i ddim yn ymglymedig iawn â rhan Aberystwyth ohono ond ym mhobman arall fe lwyddodd i addasu'n dda – yr un strwythur felly diolch i chi – chi wnaeth y darn hwnnw – sut i ddangos y gwaith ac roedd hynny'n hyfryd. Ond allaf i ddim cofio a oedd ar focsys gwyn neu beth ddigwyddodd yn Aber. Dydw i ddim yn meddwl fod yna agoriad felly doedd gen i ddim cymaint o ymglymiad â'r rhan hwnnw.

[Ceri Jones]– Roedd ar blinths bychan o fewn y casys, wedi'i gynnal, ac ar rai o'r silffoedd. Felly'n wahanol iawn. Yna bydd eich poteli chi ar silffoedd o fewn casys a phethau'n mabwysiadu presenoldeb cwbl wahanol, oni fyddan nhw? Men nhw'n llawer tebycach i sbesimenau…

[Micki Schloessingk] - Fe dynnais i'n ôl dipyn oddi wrth hwnnw.

[Ceri Jones] – Rwy'n cofio i ti ymateb yn dda iawn, er hynny, Kate, i'r casys yn Aberystwyth.

[Kate Haywood] – Do, rwy'n tybio oherwydd fod iddyn nhw'r newid dehongliad hwnnw gan y byddan nhw'n mabwysiadu'r synwyrusrwydd amgueddfa hwnnw a weithiodd yn dda iawn â'r gwaith, rwy'n meddwl, felly gyda phob lleoliad roedd yna deimlad cwbl wahanol i'r gwaith. Bydd hynny sicr felly'n sialens ym mhob lleoliad, byddwch yn dysgu cymaint am eich gwaith yn y ffordd honno, oni fyddwch chi?

[Ceri Jones] – A phaentio waliau mewn gwahanol leoedd – a oedd gennych chi hoff leoliad?

[Kate Haywood] – Yma, yn bendant, dim ond oherwydd y tapio i mewn i'r ddefod a'r seremoni a theimlad defosiynol y gwaith a dyma'r cydweddiad naturiol agosaf i'r gwaith a'r cynodiadau y

byddwch yn eu tynnu o hynny.  Ac mae hwn yn ofod mor hardd, ond ydi o gyda'r heddwch a'r tawelwch.

[Ceri Jones] – A oes yna unrhyw leoliadau yng Nghymru yr hoffech chi i ni fod wedi'u cynnwys neu yr hoffech chi iddyn nhw fod wedi cymryd eich gwaith? …. Efallai nad oes!! ….

[Kate Haywood] – Rhai adeiladau hanesyddol o bosib fel y gallai eich gwaith gael ei osod yn nesaf at bethau, gwahanol ddarlleniadau.  Ni allaf feddwl am un pendant ond rwy'n meddwl ei bod yn ddiddorol bob tro pan fyddwch yn mynd ag o allan o leoliad yr oriel a gwahanol gynulleidfaoedd hefyd.

[Ingrid Murphy] -  Roeddwn i'n eithaf hoff o deimlad cartrefol Llantarnam Grange gan y gallai'r gwrthrychau a ddefnyddiais i eistedd yn eithaf parod yn yr amgylchedd domestig yn haws nag y gwnaethon nhw mewn gofod glân gwyn.  Felly rwy'n tybio y byddai'n ddiddorol yn sicr ystyried ymyriadau i fathau o amgylchedd mwy domestig, byddai'n ddiddorol edrych ar hynny o ran dod â'r gwaith i sylw'r cyhoedd hefyd.

[Justine Allison] – Oherwydd rwy'n credu y bydden nhw'n gweithio'n wahanol yn y math hwnnw o leoliad hefyd.  Rhowch o mewn oriel a bydd y ffordd y byddan nhw'n ymateb iddo fel mewn oriel wedi'i rhoi mewn safle domestig felly fe allan nhw ei weld yn syth yn eu cartrefi eu hunain ac fe fyddan nhw'n llai ofnus ohono.

[Ingrid Murphy] – Bydd yn rhoi cyd-destun iddo...

[Ceri Jones] – Fe gawsom ni dipyn o daith â'ch gwaith chi.  Rwy'n meddwl am Ruthun, yn meddwl am bobl yn ei gyffwrdd yn y safle domestig hwnnw a'ch darnau chi â phobl yn ysu i'w cyffwrdd.  Roedden nhw mor flasus…

[Anne Gibbs] – Rwy'n cofio bob amser gweld gŵr gwirioneddol smart yn edrych ar y pentwr o'r hyn a edrychai fel darnau o bapur eildro wedi'i garpio ac roedd yn edrych ac yn edrych ac fe drodd at ei wraig a dweud "Mae arnaf i eisiau chwythu hwnna go iawn". Ac fe ddywedais i "peidiwch plîs" ac roeddwn i'n sefyll gyferbyn ag o a doedd o ddim yn gwybod mai fi oedd yr artist.  Gwnaeth hynny i mi wenu a meddyliais fod hynny'n eithaf neis ond, yn amlwg, wnaeth o ddim – y rhyngweithiad hwnnw o bobl eisiau ei gyffwrdd, mae'n debyg, ac fe fu'n rhaid i mi newid pethau wedyn yn Llantarnam Grange.  Roeddwn i'n wirioneddol hoff o'r lleoliad hwnnw oherwydd fe symleiddiais i'r sioe gyfan, a dweud y gwir.  Fe dynais i lwythi o waith allan ac yna fe roddwyd gorchudd ar y ddau fwrdd i atal pobl rhag ei gyffwrdd a chwarae ag o.  A hefyd mae'r oriel honno â golau naturiol ac rwy'n meddwl i hynny wneud gwahaniaeth hefyd.  Roedd pob lleoliad â gwahanol bethau roedd yn rhaid i chi eu hystyried ac rwyf wrth fy modd â hynny.  Ar gyfer y dyfodol rwy'n credu i mi ddysgu llawer o ran y ffordd o arddangos y gweithiau mewn gwahanol leoliadau, os gofynnir i mi wneud sioe solo eto (awgrym cynnil yn y fan yna!!!)

[Ceri Jones] – Beth am… roedd yn golygu llawer o waith i bob un ohonoch chi ac roedd yn swm enfawr o waith ac egni 'roedd yn rhaid i chi ddod o hyd iddo: egni creadigol, egni corfforol ac amser. A oedd yna agweddau penodedig ar y broses, y daith, a oedd yn eich synnu neu a wnaeth i chi aros a meddwl "Sobrwydd mawr, doeddwn i ddim yn disgwyl hyn" neu a oes yna unrhyw beth yn ystod y broses honno, o'r adeg y gofynwyd i chi hyd yr adeg yr oeddech yn pacio eich sioeau olaf, neu unrhyw beth sy'n dod i'ch meddwl nad oeddech yn ei ddisgwyl?

[Ingrid Murphy] – Byddfa yn meddwl yn nerfus am y diwrnod y cefais fy nghyfweld gan Martina Margetts, a doeddwn i ddim yn barod am hynny ac roedd hynny'n wirioneddol ddiddorol oherwydd roeddwn i'n llythrennol newydd hedfan yn ôl o Tseina ac wedi codi rhyw fyg… ac roedd fy mhen i'n dal ar lefel arall yn gyfangwbl. Roedd fel y tiwtorial PhD anoddaf ac roedd gen i chwech wythnos i fynd cyn i'r sioe gyntaf agor. Fe es i i'r gwely y noson honno'n meddwl ew!, dydw i ddim yn barod o bell ffordd…. Fe es i drwy'r felin, a dweud y gwir. Roedd yn ardderchog oherwydd fe'm symbylodd i mewn ffordd. Roedd ei amseriad yn allweddol gan y bu'n rhaid i mi orfod amddiffyn yn rymus bopeth roeddwn i'n ei wneud. Oherwydd natur y gwaith a'r rhyngweithgaredd ac oherwydd na ddaeth y gwaith i fodolaeth go iawn nes iddo gael ei weirio i mewn yn iawn yn llythrennol yn Rhuthun am y tro cyntaf gan na fyddai arnoch eisiau adeiladu'r electroneg ac yna gorfod eu tynnu oddi wrth ei gilydd eto, roeddwn i'n ceisio ei darbwyllo yn y stiwdio y byddai hyn yn gwneud pethau rhyfeddol ond roedd yr olwg ar ei hwyneb yn ddigon i mi feddwl efallai y byddai'n rhaid i mi ail-feddwl.

Dyna, mae'n debyg, i'm meddwl i, fy ffordd i o weithio i fod yn onest, mai gorfod gwneud y 'shoot' catalog hwnnw a'r traethawd hwnnw a'r cyfweliad hwnnw ymhell ymlaen llaw yw'r hyn y byddwn i'n ei ystyried yn ddyddiad cwblhau ac fe ddysgodd hynny lawer iawn i mi – i baratoi'n llawer gwell, rwy'n meddwl, ac nad oeddwn i wedi paratoi cymaint ag yr oeddwn i'n ei feddwl. Roedd yn dipyn o broses i mi.

[Anne Gibbs] – I mi, bydd gennych syniad, byddwch yn gwneud nodiadau a byddwch yn gwneud ond doeddech chi ddim yn gwybod mewn gwirionedd sut y byddai'n edrych hyd nes i chi ddod ar y diwrnod i osod felly roedd hynny'n bryder bob amser – a ydw i wedi gwneud digon o waith, sut fydd o'n edrych ac yna mae'n rhy hwyr, allwch chi ddim newid dim mewn gwirioinedd. Byddaf yn meddwl o na fyddwn i wedi stopio ychydig ynghynt yn y gwneud ac wedi adlewyrchu ychydig mwy, efallai, gydag ôl-ddoethineb.

[Ingrid Murphy] – Y gwrthwyneb i mi, felly, a dweud y gwir.

[Anne Gibbs] – Ie, ond rwyt ti'n gweithio'n llawn-amser, mae'n eithaf gwahanol felly.

[Justine Allison]– Fe wnes i banicio braidd am fy ngwaith i oherwydd ei fod, ar y cyfan, yn eithaf bychan hefyd felly fe feddyliais i, pan ddest ti draw ar un o dy ymweliadau, fe ddywedais ti 'rwyt ti wedi gwneud llwythi'. Roeddwn i'n mwynhau'r broses honno'n fawr ond roeddwn yn poeni eto… y byddai hyn yn crebachu ac yna'n tyfu. A ydi o'n mynd i fynd ar goll? Felly ie, panig oedd o ac rwy'n meddwl mai panig a wnaeth i mi wneud cryn lawer o waith. Rydw i'n gwneud hynny rŵan hefyd. Ond roeddwn i'n hapus iawn ag o oherwydd roeddwn i hefyd yn gwneud dim ond y pethau roedd arnaf i eisiau eu gwneud yn wirioneddol, felly dim hualau, fel y cyfryw. Fy agwedd i oedd 'oes, mae arnaf i'n wirioneddol eisiau eu gwneud' a hynny oedd yn ardderchog go iawn – caniatáu i mi fy hun oherwydd, yn eithaf aml, fyddwch chi ddim yn caniatáu i chi eich hun wneud hynny.

[Micki Schloessingk]– Rwy'n credu efallai nad oeddwn i'n meddwl amdano'n union felly, fod hyn yn rhoi'r rhyddid i mi wneud gwaith yn benodedig ac yn awr rydych chi'n rhoi'r syniad yma i mi y byddai hyn yn beth dymunol i'w wneud. Nid wy'n meddwl fy mod i erioed wedi caniatáu i mi fy hun yr amser hwnnw ac efellai mai oherwydd y broses, fod fy mhroses i'n fwy i, unwaith fod fy ngwaith i'n mynd yn ei flaen, byddaf bob amser yn tynnu'r potiau gorau o bob taniad a'r hyn a wnes i gynna mewn ffordd oedd dewis y gorau dros gyfnod o beth bynnag oedd o – blwyddyn a hanner neu rywbeth.

Ond dydw i ddim yn siŵr fy mod wedi rhoi'r caniatâd hwnnw i mi fy hun i wneud rhai neu efallai rywsut na wnes i ganiatáu'r amser i mi fy hun i wneud dim ond yn sbesiffig ar gyfer y sioe hon – efallai fod hynny oherwydd fod fy mhroses i'n ei gwneud yn anodd i mi wneud hynny, dydw i ddim yn siŵr. Ond rydw i'n meddwl fod ei chael hi yma a chan fy mod yn byw mor agos i'r fan hyn, fe fwynheais i'r agoriad a gawson ni'n fawr iawn ac roeddwn yn synnu fod yna lawer o bobl a oedd yn gwybod am fy ngwaith i: frindiau, cymdogion ac ati, a hwythau'n ei weld yma ac wedyn minnau'n rhoi sgwrs ac rwy'n meddwl fod Alex yma hefyd yn rhoi sgwrs, ac yna fe roeson ni glai i bawb felly roedd pawb yn ymgolli'n llwyr yn hynny. Dywedodd llawer o bobl eu bod wedi synnu, doedden nhw ddim wedi deall – er eu bod yn fy adnabod i'n wirioneddol dda - cymaint sy'n mynd i mewn i'r broses. Roedd yn teimlo'n gysylltiol iawn rywsut i mi â'r ardal, ac â Chymru hefyd. 'Roedd y ffaith ei bod yn teithio o gwmpas yn gwneud i mi deimlo fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi'n fwy am fod yma. Cefais fy nghyffwrdd gan y ffordd yr oeddech yn fy ngwerthfawrogi i a ni a doeddwn i ddim yn sylweddol cymaint yr oedd arnaf i angen hynny, angen cael fy ngwerthfawrogi a chael gofal. Fyddwn ni ddim bob amser yn dangos ein bod yn agored i niwed… i ddangos beth sydd y tu mewn, mewn gwirionedd, ond roeddech chi fel pe baech yn sensitif i hynny i gyd.

[Ceri Jones] – Rwy'n cofi dy agoriad di, roedd yn rhyfeddol... ffrindiau lleol yn dod, pobl leol a oedd yn dy adnabod, efallai, wedi ymweld ac efallai iddyn nhw fod wedi clywed amdanat ti ond heb wybod beth roeddet ti'n ei wneud: y synnwyr hwnnw o ddod â phobl leol at ei gilydd o wahanol ddiddordebau a chyfareddau. Roedd yn agoriad dathliadol mor gynnes a rhyfeddol ac roedd gennych chi fwy na 40 o bobl, 60 o bobl i gyd yn modelu llwyau â llaw, yn mynd ati'n syth ac yn ei ddefnyddio ac, fel yr wyt ti'n dweud, mae'r gwerthfawrogiad hwnnw o'r gymuned leol yn wirioneddol werthfawr.

[Micki Schloessingk] – ac yna fe ddaethon ni i adnabod ein gilydd. Yn union cyn hyn roeddwn yn teimlo nad oeddwn i'n wirioneddol yn hollol addas ar gyfer Mission nac ar gyfer y fan hyn. Roeddwn i fel pe bawn i wedi fy anghofio allan yna, yn gwneud fy hen botiau felly teimlais fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi yma hefyd ac efallai'n fwy mewn orielau.

[Rhian Wyn Stone] – Yn bersonol, roeddwn i'n teimlo fod dy waith di – roedd yna deimlad mor wahanol iddo o'i weld yn yr arddangosfa a thithau'n gwneud ac fe ddeuthum i hoffi dy botiau di'n fawr iawn. Roeddwn i'n hoff ohonyn nhw cyn hynny ond roeddwn yn eu caru erbyn y diwedd.

[Ceri Jones] – unrhyw syrpreisys eraill ar hyd y ffordd o ran y broses?

[Kate Haywood]– I mi, bydd drosodd mor sydyn. 'Roeddwn i wedi fy synnu'n fwy pan oeddwn wedi gorffen, a'r gwaith yn dod yn ôl ac fe allwn i fod wedi cael mwy o amser i adlewyrchu ar y flwyddyn i weld beth rydw i wedi'i wneud a meddwl am y sgyrsiau a ges i yn ystod y flwyddyn, felly rwy'n tybio fy mod wedi synnu'n fwy rŵan gan fy mod wedi cael yr amser adlewyrchiadol hwnnw. Fy mharatoi fy hun ar gyfer y peth nesaf i mi ei wneud. Mae mor ddwys ar brydiau.

[Ingrid Murphy] – I mi hefyd, sylweddoliad annisgwyl llwyr yw bod yn gweithio mor ddwys â hynny a dysgu'r un pryd. Tybiais y byddai'n peri dryswch. A 'doedd o ddim, mewn gwirionedd - y gwrthwyneb yn llwyr oherwydd 'roeddwn yn teimlo fod fy ymennydd yn gweithio'n gyson yn adlewyrchu neu'n gwneud penderfyniadau critigol. Gan fy mod yn diwtor lefel 6 fe fyddaf gyda'r myfyrwyr trydedd flwyddyn bob amser ac yr oeddwn i, yn eironig, yn fwy empathetig tuag at y myfyrwyr gan y byddwn yn ei fyw'n ddyddiol: popeth y bydden nhw'n ei wneud ac weithiau, os na fyddwch chi, gallwch ymddieithrio oddi wrtho a dod yn llai cydymdeimladol felly credwn y byddai'n dipyn o wrthdrawiad fod hyn i gyd yn digwydd yn fy mhen i ac y byddai hynny'n tynnu fy sylw oddi wrth yr hyn y byddaf yn ei wneud yn fy mywyd dyddiol ond y ffaith yw yr unodd y ddau â'i gilydd,

roedden nhw'n baralel. Hefyd oherwydd y pethau nad oeddwn wedi'u gwneud o'r blaen rwy'n gwneud darganfyddiadau y gallwn eu trosglwyddo'n hawdd i ddysgu ond rwy'n meddwl ei fod yn sicr wedi fy ngwneud yn fwy empathetig tuag at anghenion y myfyrwyr gan fy mod i rywsut yn mynd drwy'r un broses ag yr oedden nhw eto ac eto ac eto.

[Ceri Jones]– Fyddech chi'n dweud fod hynny wedi newid y ffordd yr oeddech chi â'ch myfyrwyr yn ystod eich proses, fyddech chi'n dweud fod eich ymglymiad ag Iaith Clai wedi effeithio'n barhaol ar arferion eich stiwdio neu eich dull gyda'ch arferion ai peidio?

[Justine Allison] - Yn sicr, yn sicr - dyna'r cyfle hwnnw i edrych, mewn ffordd ….I mi dyma'r math o beth yr oedd arnaf i wedi bod eisiau ei wneud, mae'n debyg, ond heb fod yn gwybod yn iawn ond fe roddodd hyn y cyfle hwnnw i mi ei wneud o ac mae hynny'n bendant wedi parhau, y meddwl … am bethau eraill, am yr hyn y sydd arnaf i eisiau ei wneud a phenderfyniadau eraill, sut fyddaf i'n gwneud a'r ffordd yr oedd arnaf eisiau iddo gael ei weld a sylweddoli y gallaf i ei wneud o. Dyna, mae'n debyg, oedd un o'r pethau mwyaf hefyd - y gallwn i ei wneud o. Mae'n debyg y byddwn ni i gyd yn ei gael o ar brydiau, syndrom y twyllwr… yr hyn a glywn ni…. Fe gewch ddyddiau da fel pan allaf i wneud fy ngwaith, ac un diwrnod byddaf yn hoff o'r darn yna ond gallaf ei dynnu oddi wrth ei gilydd yn reit hawdd y diwrnod wedyn.

Felly roedd yn rhoi lefel o hyder a chred oherwydd bod pobl eraill yn credu ynof i felly rwy'n meddwl ei fod yn bendant wedi goleuo lle mae'n mynd a'r hyn rydw i am ei wneud – yn enfawr, enfawr.

[Anne Gibbs] – Mae'n sicr wedi goleuo'r hyn rydw i'n ei wneud yn awr; fe edrychais i'n fanwl ar yr hyn roeddwn i'n ei wneud ar y pryd ac rwy'n gobeithio ei fod wedi symud ymlaen yn awr oherwydd y dwyster hwnnw o wneud am flwyddyn, felly rydw i wedi edrych ar yr hyn a wnes i yn y sioe ac wedi cymryd elfennau y teimlwn i oedd yn fwy llwyddiannus nag eraill ac rydw i wedi'u gwthio nhw'n awr dros yr ychydig fisoedd diwethaf felly dim ond yn awr rydw i'n prosesu pob dim yn wirioneddol. Pan feddyliwch chi mai yn 2017 yr oedd hynny ac rydyn ni'n awr yn 2020 bydd yn cymryd sbel rwy'n meddwl i'w brosesu a'i dderbyn ac felly y mae'n effaith enfawr ar fy arfer i yn awr.

[Justine Allison] – Gan eich bod mor ymglymedig ag o yn ystod y broses gyfan, y codi a'r sioe gyfan…

[Anne Gibbs] – Yr amser adlewyrchu hwnnw ydi o, rwy'n meddwl, gan na fyddwch chi'n adlewyrchu cymaint yn ystod yr amser hwnnw ond wedyn hefyd, rwy'n meddwl.

[Ingrid Murphy] - Rwy'n meddwl ei fod yn wirioneddol ddiddorol am resymau gwahanol, a dweud y gwir: ymarferoldeb pur yr hyn fyddwch chi wedi'i ddysgu drwy roi corff o waith allan ac o ran y rhyngweithgaredd a dysgu cymaint am y ffordd y bydd pobl yn rhyngweithio â'r gwaith gan na fu gen i erioed y gallu hwnnw i gael cynulleidfaoedd fel hyn gyda gwahanol leoliadau'n rhyngweithio'n gorfforol â'r gwaith a chael yr ymateb hwnnw i wneud rhyngweithiadau cadarnach. Mewn ffordd, o safbwynt ymarferol iawn, beth oedd yn gweithio, beth fethodd ar ôl wythnos a beth sy'n dal i weithio am 6 mis waeth faint o weithiau y bydd pobl yn ei daro; neu roedd y stwff gwirioneddol ymarferol hwnnw'n amhrisiadwy rywsut. Ond o safbwynt ymchwil sy'n seiliedig ar ymarfer yn academia fe fu'n wirioneddol dda gallu ceisio pleidio hynny nid dim ond i mi ond i gydweithwyr o ran y ffordd y gallwch ddod â'r lefel ymarfer o'r math yna i mewn i academia a'r ffordd y gall gyfri tuag at ymchwil. Mae hynny'n ddyrys iawn i bobl ei fordwyo ac fe gafodd hynny ddylanwad enfawr arnaf i oherwydd, yn academia, rydych chi bob amser wedi gwthio tuag at y theori, tuag at yr ysgrifeniadau, tuag at y gwerthusiadau, tuag at y data ac nid yr arteffact ei hun neu'r dull o wneud gwrthrych. Mae'n

wirioneddol dda gallu arddangos y ffordd y gall corff o waith fel yna arwain at allbwn ymchwil llawer mwy academaidd a bydd hynny'n cymryd amser - bydd yn cymryd amser maith ond o ran gallu profi effaith a newidiadau mewn disgyblaeth mae Iaith Clai wedi cael effaith enfawr arnaf i a gobeithio ar fy nghymheiriaid i. Mae'n fodel da i allu arddangos yr ymchwil hwnnw, y dull ymchwil hwnnw a arweinir gan arfer. A hefyd i bawb, yr amlygiad, wyddoch chi, yr amlygiad sy'n caniatáu i chi symud i wahanol barthau, sy'n wirioneddol ddiddorol. Mae ei effaith yn wirioneddol - mae bron yn rhy gynnar i feirniadu, i mi beth bynnag. Dim ond yn awr y mae pethau'n dod allan mewn gwirionedd o'r sioe y mis Gorffennaf diwethaf…. Ac yn awr fod y pethau o Aberystwyth yn dod allan yn llythrennol yn y cyhoeddiadau… mae'n cymryd amser maith ac fe fyddwn i'n dychmygu, mewn 3 i 5 mlynedd y byddwn yn gallu barnu ei effaith yn bersonol ac yn broffesiynol.

[Ceri Jones] – Fe wnawn ni hyn eto!!!

Fe grybwylloch chi gyfleoedd – unrhyw un arall, oes yna unrhyw gyfleoedd neu ddigwyddiadau neu weithredu neu gysylltiadau – unrhyw beth y gallwch roi eich bys arno sy'n deillio, yn eich barn chi, yn uniongyrchol o'ch amlygiad i Iaith Clai a'ch profiad ohono? Neu nid yw mor bendant â hynny hyd yma?

[Justine Allison] – Rwy'n meddwl i mi fynd gyda'r momentwm cyfan a'r llynedd fe lwyddais i fynd i'r CPA ac rwy'n meddwl, drwy gael y sioe yma, y cefais i lefel o hyder yn sicr i fynd am bethau ac rwy'n meddwl fod hynny wedi fy ngalluogi a dyna'r rheswm y cefais fynd i mewn bryd hynny. Roeddwn yn teimlo mai dyma'r amser i'w wneud o ac roeddwn i'n lwcus iawn o gael mynd i mewn ac rwy'n meddwl mai oherwydd i mi wneud hynny yr oedd hyn, rwy'n teimlo.

[Ceri Jones] – mae hynna'n bositif iawn, yn dydi.

[Justine Allison] – Ni allaf i gofio pryd yr oedd hynny. Mae'n flwyddyn ers i mi fod i mewn felly roedd yn union fel pe bawn i wedi peidio â bod ag ofn ymgeisio ac fe benderfynais i fynd amdani a bod yn fwy difrifol amdanaf fy hun. Os na allwch chi fynd i mewn, allwch chi ddim mynd i mewn ond yr oedd yr union adeg yma felly fe geisiais i a gallais fynd draw a dangos "edrychwch beth rydw i wedi'i wneud" felly dyma sy'n digwydd yn awr a hebddo efallai na fyddwn i wedi cael yr hyder ac roedden nhw'n gallu gweld hynny hefyd. Felly gyda 'Ceramic Review', wyddoch chi, felly dyma'r amser.

[Micki Schoessink] – bydd pobl yn cyfeirio'n aml at 'yr arddangosfa fawr honno, yr arddangosfa deithiol honno'. Bydd, bydd yn creu argraff ar bobl sy'n dod i ymweld neu gwsmeriaid neu ffrindiau eich bod chi'n rhan o'r peth yma. Byddai pobl yn ei gweld.

[Justine Allison]– Beth yw eich barn chi ar yr holl leoedd yr aeth ar daith iddyn nhw? Fe wn i, o fewn y byd serameg yma, ei bod wedi mynd i leoedd. Pan oeddwn yn y coleg, ac am flynyddoedd yn fy stiwdio gyntaf, byddem yn edrych ar gefn y *Ceramics Review* ac fe fyddwn i'n dweud "Fe fûm i ar gefn a ffrynt hwnna". Yr ymateb oedd 'bobl bach'! Ac roedd hynny oherwydd hyn, y platfform cyfan yma a wnaeth hynny'n bosib, dybiwn i.

[Ingrid Murphy]- Gallaf ddweud yn hapus mai fi yw clawr ffrynt y *Ceramic Review* nesaf ac ni fyddai hynny wedi digwydd heb 'Iaith Clai'. Maen nhw wedi ysgrifennu erthygl nodwedd ar y sioe yn Aberystwyth felly ni fyddai hynny wedi digwydd na'r penwythnos 'Digital Design'. Mae'n bosib y byddwn i wedi fy ngwahodd ond ni fyddai'r gwaith wedi bod ar gael yn rhwydd gen i i'w ddangos ar y V&A pe na bawn i wedi gallu anfon y wybodaeth a'r Catalog o'r sioe atyn nhw. Cewch eich gwahodd i wneud pethau oherwydd bod hyn gennych chi. Mae'r Catalog yn beth ffantastig mewn ffordd oherwydd y gallwch ei anfon at bobl ac mae hwn yn record sydd wedi'i brofi gyda delweddau o'r

sioe, y delweddau ffantastig a gymerodd Dewi yn Rhuthun ac yna eto yn Aberystwyth - mae gennych chi'r portffolio ffantastig hwn o'ch gwaith yn y gofodau hyn ac yna gallwch eu defnyddio i symbylu cyfleoedd eraill ac mae hynny'n amhrisiadwy, a dweud y gwir.

[Micki Schloessingk] – Rwy'n meddwl fod y Catalog yna a wnaethoch chi i ni'n rhyfeddol. Rwy'n meddwl ein bod ni i gyd, mae'n debyg, yn dal i'w ddefnyddio.

[Ingrid Murphy] - A dyna'r elfen honno o olrhain: o wefan dda a phethau felly gan fod y sioeau eu hunain yn rhai amserol, onid ydyn nhw?. Ac fel y dywedwch chi, mae gen i stiwdio'n llawn o waith ac felly rwy'n awyddus iawn i ddod â nhw allan i'w gweld eto ac felly bydd cael y portffolio hwnnw o drywydd, o'r adolygiadau, o'r erthyglau, o bethau felly a dyna, dros y blynyddoedd fydd yn ennill mwy o arwyddocâd i'r sioe. Fe wyddom ni i gyd fod yna sioeau serameg mor semenaidd wedi bod dros y blynyddoedd ac sydd wedi aros yn ein cof oherwydd eu catalogau ffantastig, oherwydd eu cymynroddion gweledol da a faint y byddan nhw'n perfformio i bractis felly fe fydd yn ddiddorol iawn gweld sut y daw hyn yn gritigol. Bydd fy myfyrwyr yn cyfeirio at Iaith Clai drwy'r amser ond hefyd i gael pethau fel adolygiadau i mewn i daflenni newyddion artistiaid yn hytrach na chylchgronau serameg neu grefft. Rwy'n meddwl fod hynny'n hynod arwyddocaol gan fod yna gylchrediad llawer ehangach a chyda chynulleidfa ehangach felly bydd cael yr adolygiadau hynny a phethau felly eto'r un mor bwysig i ni'n unigol fel artistiaid ond hefyd i'r arfer ei hun gael ei weld â mwy o gymeradwyaeth a manwl gywirdeb.

[Justine Allison] - Pan oedd fy sioe i yn Rhuthun roedd yna hefyd arddangosfa adolygol o waith Angus Sutti ac fe'i gwelais cyn i mi wneud fy ngradd, ac fe euthum i'r ???… yn Oriel Rhydychen sef y rheswm yn rhannol i mi ei wneud, ac felly i mi, i gael fy ngwaith i wedyn yn yr un lle â'r sioe, y sioe semenaidd, fe ddywedwn i mai dyma'r hyn a'm rhoddodd i ar fy llwybr - roedd hynny'n wirioneddol enfawr, ac fe gefais eu cyffwrdd hefyd cyn gosod y gwydr. Roedd yn wirioneddol gyffrous, felly'r sioe honno, mewn gwirionedd, oedd y lle y dechreuodd pethau i mi ac yna, roedd bod yn yr un lleoliad yn ardderchog. Roedd hynny'n ôl yn '93 neu '92.

[Ingrid Murphy] – Dyna a newidiodd arfer serameg: y sioe honno.

[Justine Allison] – Sioe anhygoel. Mae Philip yn ei chofio, gan na allwn i gofio enw'r sioe, felly roedd hynny'n ardderchog.

[Ingrid Murphy]- Fe lansiodd y sioe honno lawer gyrfa, a dweud y gwir.

[Ceri Jones] - Oes yna unrhyw beth, Anna, a weithiodd i chi, a ydi'r profiad wedi effeithio ar y ffordd yr oeddech yn delio â gwaith yn y stiwdio neu efallai'r ffordd rydych chi'n delio â gwneud yn awr? Fe wnaethon ni siarad yn gynharach am fod eisiau rhywfaint o seibiant.

[Anna Noël], - Rwy'n meddwl fod popeth wedi digwydd yn rhy sydyn i mi o ran gwneud yr hyn roeddwn i wedi ei fwriadu: seibiant oddi wrth fy arfer normal i. Teimlwn fy mod yn gwneud gwaith dim ond i lenwi bwlch. Dim amser i ailadrodd yr hyn roeddwn i'n ei wneud go iawn. Roeddwn i'n wahanol i bawb arall gan mai dim ond misoedd oedd gen i i roi popeth at ei gilydd ac rwy'n teimlo rywsut fy mod wedi colli'r cyfle ac felly mae gen i deimladau cymysg am gymynrodd yr arddangosfa o'm safbwynt i. Oherwydd, wrth edrych yn ôl, dyna pam rwy'n awr yn gobeithio adennill rheolaeth felly rwy'n meddwl 'araf deg yn awr, rhowch amser i mi', ac fe allaf baratoi a dangos yr hyn y gallwn i ei wneud mewn ffordd a fyddai'n rhoi mwy o reolaeth i mi. Rwy'n meddwl i mi golli rheolaeth yn llwyr o'r hyn a oedd yn digwydd gan fod pethau'n gwerthu ac yn mynd ymlaen ac felly, ym mhob lleoliad, byddai'n crebachu'n enfawr a byddai'n rhaid i mi wneud pethau'n gyflym mewn mater o

wythnosau. Doedd gen i ddim amser i feddwl sut i ffitio pethau â'i gilydd. Bydd arnoch angen amser i ddatrys syniadau a gweithio felly roeddwn i fel petawn i'n llenwi gofod, yn sylfaenol, felly dydw i ddim yn meddwl i mi gael yr un …a dweud y gwir fe barodd i mi…fe gollais fy hyder yn arw. Roeddwn yn teimlo'n amddiffynol iawn, oherwydd nid hyn yn sicr y byddwn i wedi ei wneud pe bawn i wedi cael yr un cyfle â phawb arall - felly roeddwn i'n teimlo…rwy'n meddwl yn awr, gyda threigl amser, fy mod yn adennill fy synnwyr o reolaeth o'r hyn y gall fy ngwaith ei wneud, lle gall fy ngwaith fynd yn ei flaen. Fe aeth pethau'n ddrwg wedi hynny gan fy mod yn teimlo'n noeth, yn ddiamddiffyn.

[Ceri Jones] – Sy'n wirioneddol hanfodol.

[Anna Noël] – a theimlwn yn sicr nad hyn y byddwn wedi hoffi ei wneud ond roedd y cyfle yna ac fe wnes i o ond doeddwn i ddim yn teimlo mai dyna oedd yr hyn y byddwn i wedi ei ddymuno mewn gwirionedd felly rŵan rwy'n mynd i geisio cael mwy o reolaeth o bethau os byth y digwydd rhywbeth fel yna eto.

[Ceri Jones]- A'r teimlad hwnnw, a ydi hwnnw wedi cryfhau neu ai dim ond fy argraff i yw bod hwnnw'n deimlad cryf a grymus iawn? A yw hynny wedi tyfu dros y ddwy flynedd ddiwethaf, oherwydd nid dyna'r synnwyr oedd gennym ni ar y pryd; roeddech chi fel pe baech wrth eich bodd â llawer o'r gwaith hardd, felly a yw hynny wedi cynyddu?

[Anna Noël] - Efallai, rwy'n meddwl, dydw i ddim yn siŵr a gefais i unrhyw adborth positif felly roeddwn yn teimlo, fel y dywedais i, yn hynod noeth. Roeddwn yn mynd i golegau ac yn siarad ac yn meddwl 'o diar, beth ydw i'n ei wneud yma?' Doedd hynny ddim yn dda i mi ond rwy'n meddwl fod rhoi amser cyfartal yn deg i bob artist yn bwysig yn hytrach na rhoi 3 mis i rywun roi rhywbeth at ei gilydd pan oedd eraill yn cael blwyddyn. Roeddwn i'n teimlo nad oeddwn i'n gwybod ei fod yn mynd i ddigwydd yn bendant tan fis Mai ac yna mae'n rhaid i chi ei roi mewn arddangosfa ym mis Tachwedd a dim amser i feddwl wel rŵan mae hon yn sioe fawr i mi ac i ddim ond newid o werthu pethau bach mewn orielau o gwmpas y lle a'r grŵp achlysurol mewn arddangosfa a phethau, i gyd mewn ffordd fasnachol. Mae hyn yn sefyllfa cwbl wahanol a fydd yn eich dangos chi fel artist. Y tro olaf i chi wneud hynny oedd yn eich sioeau gradd ac yna'n sydyn rydych chi'n gwneud rhywbeth hollol wahanol ac rwy'n meddwl, roeddwn i'n teimlo'n amddiffynnol iawn yn fy mhen, ond yn awr, o edrych yn ôl, efallai y gallaf i fod yn fwy positif amdano.

[Ceri Jones]– gormod yn rhy sydyn.

[Anna Noël] - ie, efallai fod hynny'n iawn ond rydw i'n wirioneddol falch o gael y profiad a'r cyfle a roesoch chi i mi ac rydw i'n ddiolchgar am hynny felly'r sefyllfa rydw i'n beirniadu.

[Micki Schloessingk] – faint o amser fyddai'n dda i chi ei gael, dybiwch chi? Rydw i'n chwilfrydig i wybod faint o amser fyddai pawb yn ei hoffi, a fyddai'n dda ar gyfer y math yma …

[Justine Allison] – Chefais i ddim… fe gest ti rywbeth fel Awst ac fe gefais i o yn Ionawr felly doedd hynny ddim yn swm mawr ond wedyn rwy'n meddwl i mi fod wedi dechrau meddwl amdano eisoes gan y gwyddwn fod yna botensial felly roeddwn yn aros i glywed….rwy'n meddwl mai Gorffennaf neu rywbeth felly…mwy o amser dybiwn i, ond i mi ….fe fyddaf i, mae'n debyg, a dweud y gwir, yn gweithio'n well gyda therfyn amser gan y gallaf fynd a gwneud llawer iawn o bethau eraill. Rydw i wedi bod yn gwneud prawf gwydredd yr wythnos hon ac yn wir does dim angen o gwbl i mi wneud y rheiny ond rydw i'n eithaf da am ddod o hyd i bethau eraill i'w gwneud felly bydd terfyn amser tynn yn gweithio'n eithaf da i mi….rydw i'n eithaf da â'm hamser a'r ffordd y byddaf yn gweithio'n awr.

[Ingrid Murphy]- Roedd yn ddiddorol i mi gan fod fy sioeau i'n gefngefn, gefngefn, gefngefn, felly doedd gen i ddim amser rhyngddyn nhw. Roedden nhw'n mynd yn llythrennol o leoliad i leoliad i leoliad ond doedd rhai ddim felly, rwy'n credu, ac roedd hynny'n dda i mi oherwydd pe bawn i wedi cael gormod o amser fe fyddwn i wedi bod ond yn adlewyrchu ac yn ceisio newid gormod, felly roedd yn dda unwaith yr oedd wedi dechrau. Roeddwn i ar y rôl honno, a dweud y gwir, â'r amser i wneud y gwaith ychwanegol sy'n angenrheidiol rhwng… graddio i fyny i'r gofod mwy hwnnw, mor ddychrynllyd ag yr oedd hynny. Roeddwn i'n wirioneddol ddiolchgar mai cyfnod byr o amser oedd o. Cyn hired ag y byddai o, fe fyddwn wedi ei lenwi ac roedd hynny'n bwysau sylweddol …bod dan bwysau o'r lefel yna am gyfnod hir … dyna'r hyn sydd uchaf yn eich meddwl a byddwch yn deffro yn y bore, weithiau am gymaint o amser â hynny, dydi hynny ddim yn iach, yn fy meddwl i.

[Anne Gibbs]- Rwy'n meddwl i mi gael blwyddyn. Fe ofynnoch chi i mi ym mis Tachwedd 2015 ac yna fe agorodd yn 2017 felly mae hynny'n amser go hir a dweud y gwir, i feddwl amdano ond, unwaith y gwnes i'r gwaith, dyna fo wedyn. Wnes i ddim yn y canol - doedd o ddim fel yr oeddet ti'n ei ddweud, fe fyddwn i'n ymweld â phob lleoliad gwahanol felly fe deimlwn i fy mod wedi gwneud y meddwl i gyd mewn un flwyddyn a dyna fo. Dyna'r peth ynglŷn ag amser - beth yw'r amser perffaith? Fe fyddwn ni i gyd yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol ac mae gennym ni i gyd ymrwymiadau gwaith gwahanol - does raid i chi ond ei gyflenwi pan allwch chi, a dweud y gwir. Ond mae'n ganmoliaeth i ti Anna, oherwydd fe werthaist ti lawer o waith - ystyria hynny'n ganmoliaeth.

[Anna Noël] - Fe allaf i mewn rhai ffyrdd. Fe wyddoch y gallwch gynnull grŵp at ei gilydd a byddwch yn meddwl fod hynny'n ddigon ond rwy'n meddwl i ni symud ymlaen i Aberystwyth ac yr oedd yn rhaid i mi lusgo gwaith allan gan nad oedd gen i ddigon o waith i lenwi'r casys arddangos. Rwy'n meddwl i mi gael y rheiny a oedd yn dod yn syth o Ruthun - a oedd yn lleoliad positif iawn yn fy meddwl i o ran gwerthiannau, felly rwy'n meddwl mai dim ond tua 10 o ddarnau neu lai oedd gen i yno.

[Anne Gibbs] – Yna mae'n bwysau mawr felly gan eich bod yn gwneud rhyngddyn nhw.

[Anna Noël]- Yn sydyn cefais yr alwad ffôn yna'n dweud nad oedd Aberystwyth yn hapus nad oedd ganddyn nhw lawer o stwff yn dod yn ôl a minnau'n meddwl 'oh sobrwydd' oes gennym ni unrhyw beth o gwbl? Yn y cyfamser fe fyddwch chi'n cadw cysylltiad ag orielau sy'n eu cadw'n ôl, ac yn meddwl a ddylwn i roi i Aberystwyth neu roi i'r oriel hon. Ac eto, roeddwn i ond yn gwneud pethau na fyddai efallai wedi gweddu â phopeth. O'ch gwaith chi gyda'i gilydd, fel cyfanwaith, rhaid llenwi gofod fel na fydd yn codi gormod o gywilydd.

[Ceri Jones]- Mae'n ddrwg gen i iddo fod mor anghyfforddus. Mae'n ddefnyddiol iawn nodi hynny rŵan a meddwl amdano ac yn enwedig gwaith sydd yn gwerthu ac yn gwerthu mewn meintiau mor fawr, maint cymharol os hoffech chi, y cysyniad hwnnw ohonom ni heb fod wedi'i gadw gyda'i gilydd a dweud wrth bobl na chaen nhw mohono am 18 mis neu 2 flynedd arall fel petai…

Felly ydi, mae'n ddrwg gen i ei fod ….. ond mae'n wirioneddol werth chweil gwybod yn awr a chofio hynny ac ystyried fod hyn yn wahanol i bawb, pob dull o ystyried gwneud.

[Anna Noël] -oherwydd roedd yn ddau beth gwahanol, peth masnachol a gofod yr arddangosfa, fe fyddwch chi'n gwneud gwahanol fathau o waith, fe allech wneud arddangosfa heb feddwl fod arnoch chi eisiau arian, rydych chi'n ei wneud o oherwydd bod arnoch eisiau eich dangos eich hun fel artist ac rwy'n meddwl y gall y dulliau gwahanol fod yn anodd. Roedd fy meddwl i'n dal i fod gydag orielau a phethau ac eisiau'n wirioneddol gallu fy nangos fy hun yn fwy fel artist. Gwneud pethau mwy a

gwneud pethau mewn grwpiau mwy ac felly fy ngweledigaeth i ac, wrth gwrs, wnes i ddim sylweddoli, oherwydd y ffactor amser a meddwl ei fod yn amhosib, y byddai'n rhaid i mi wneud yr hyn y byddaf i'n arfer ei wneud yn hytrach na bod yn greadigol yn yr ochr artistig fel petai … ni allai hynny ddod drwodd cymaint ag y byddwn i wedi ei ddymuno.

[Ceri Jones] – Roedd yn fendigedig mynd â'ch gwaith i'r holl gynulleidfaoedd newydd ….

[Anna Noël] - Efallai i mi fod yn or-sensitif…

[Micki Schlosessingk] - a hefyd yn orfeirniadol efallai oherwydd roedd yn arddangosfa hyfryd. Yr un a welais i yma, welais i mohoni… felly dim ond y dechrau welais i, ac roedd hynny'n neis, ond fe wnaeth argraff wirioneddol arnaf i.

[Anna Noël] - Diolch

[Ceri Jones] – Roedd yn arddangosfa hyfryd ym mhobman, oedd yn wir.

[Ingrid Murphy] – Ond mae'n ddiddorol, wedi i'r cyfan ddod i ben, rwy'n meddwl fod yna gyfnod o amser diddorol oherwydd y bydd yn dod yn ôl i gyd ac mae yna'n anorfod bron synnwyr o golled gan eich bod wedi gweithio mor galed ar gyfer rhywbeth ac fe wyddoch eich bod yn mynd rownd ac fe ddaw'n ganolbwyntiedig iawn. Mae'r tŷ wedi mynd i'r diawl ac yn y blaen … ac rydw i'n rhydd eto ond wedyn mae yna, a dweud y gwir, mae yna alar wedi i rywbeth fel yna ddod i ben nes bod y peth nesaf yn dechrau.

[Justine Allison] – Yr hyn a ddywedais i wrthoch chi'n gynharach roeddwn yn teimlo fel pe bai gennyf fraich fawr amdanaf i am … y flwyddyn a hanner gyfan a hynny fel rhywun sy'n gweithio ar ei phen ei hun, fel y gwnawn ni i gyd; roedd cael y gefnogaeth honno gan y ddwy ohonoch chi'n rhyfeddol. Ac yr oedd yn teimlo fel braich amdanoch chi ac roedd hynny'n hyfryd…. Ac felly pan ddaw'r gwaith yn ôl bydd fel oh …

[Ceri Jones] - ond er hynny wnest ti ddim cwympo drosodd, yn naddo?

[Justine Allison] – Mae mor… rwy'n meddwl fod cael y lefel yna o gefnogaeth yr holl ffordd drwodd, wedi bod yn …

[Anne Gibbs] – a'r cyfathrebu, rwy'n meddwl. Roeddech chi'n derbyn e-byst drwy'r amser, ac mae'n rhaid i chi roi sgwrs yno a gwneud hyn ac yna'n sydyn mae'r cwbl yn arafu neu'n stopio ac yna rydych chi'n meddwl oce, beth ydw i i'w wneud rŵan? ...Mae mor ddwys, ond ydi o, a dweud y gwir, ac mae fel yr hyn roeddet ti'n ei ddweud - galar…

[Ingrid Murphy] - ac i mi roedd o'n llawenydd cyflawn oherwydd roedd yn rhaid i mi fynd a gosod ym mhob lleoliad ac felly roeddwn yn cael treulio amser â llawer o bobl yn y gwahanol leoliadau. Byddai'n cyrraedd a byddai'n rhaid i mi fynd a'i weirio. Rwy'n meddwl fod Rhuthun yn bum diwrnod ac roedd Aberystwyth yn bum diwrnod arall. Roedd yn ffantastig dod i adnabod y bobl a'r gymuned yn y gwahanol leoliadau, roedd yn grêt, ar roedd gweithio ochr-yn-ochr â nhw'n hyfryd… gweithio â Jason a Becky, roedd yn ardderchog… byddwch yn cyfarfod â phawb ac felly byddwch yn teimlo'n llawer mwy o ran o'r gymuned a'r rhwydwaith a seilwaith yr orielau hynny yng Nghymru. Bydd yn rhoi mewnwelediad ardderchog i chi yn hytrach na dim ond gwaith yn cael ei gasglu a'i adael mewn gwahanol leoedd fel y byddwch yn ei brofi'n aml pan fyddwch yn dangos. Mae'n grêt a dweud y gwir,

bydd yn rhoi'r mewnwelediad hwnnw i chi - rwy'n gyfarwydd â'r weirio ym mhob gofod yng Nghymru… pe bai arnaf i eisiau hynny ai peidio...

[Ceri Jones]-Fe gaewn ni ben y mwdwl yn fuan ond roedd arnaf i ddim ond eisiau, ac efallai na fydd hyn yn berthnasol i bob un ohonoch chi, ond Anne, fe ddewisoch chi'n gynharach, dim ond y foment hon sydd wedi aros yn y cof, pan ddigwyddoch chi glywed y gŵr hwn yn dweud fod arno eisiau chwythu eich gwaith. I mi, roedd yna uchafbwyntiau di-rif ond wrth sefyll yn ôl ac edrych ar 60 a mwy o bobl yn gwneud llwyau â llaw efo chi, roedd hynny'n uchafbwynt gwirioneddol…. A fyddai yna ddim ond un peth, rwy'n mynd i ddweud uchafbwynt yn hytrach nag isafbwynt, ond os mai isafbwynt ydi o yna isafbwynt ydi o, y byddech chi ddim yn ei ddewis ac yn teimlo na wnewch chi byth ei anghofio? Fe allai fod yn ailweirio gwifrau trydan amheus…

[Ingrid Murphy] - I mi, y sioe yn Aberystwyth fyddai hynny, yn yr ŵyl, a mynd i mewn i'r gofod wrth i mi redeg oddi ar y llwyfan, gan fy mod yn llywyddu, a byddwn yn cymryd hoe bob awr am 15 munud ac fe fyddwn i'n rhedeg ar draws a dim ond gwirio fod popeth yn iawn, gan y byddai'n cael ei daro'n arw… a'r llawenydd hwnnw, mae yna'r peth yna, wyddoch chi, o syndrom twyllwr, a chithau'n gwybod eich bod yn llywyddu ar y llwyfan hwnnw a goreuon y byd yn dod o'ch blaen am wn i ddim ba hyd, 14 o flynyddoedd, ac nid chi yw'r arddangoswr byth, felly byddwch yn teimlo bob amser eich bod yno, rydych chi'n hwyluso hynny, ond roedd y llawenydd o allu rhedeg drosodd a mynd â nhw i'r gofod a'u gweld yn y gofod hwnnw'n wirioneddol braf i mi oherwydd, mewn ffordd roedd barn eich cymheiriaid yn wirioneddol braf, roedd hynna'n uchafbwynt i mi gan eu bod nhw'n ei hoffi.

[Anne Gibbs] – Rwy'n meddwl mai fy uchafbwynt i oedd yr agoriad yma yn y Mission. Wn i ddim ai'r synnwyr hwnnw o ryddhad oedd hynny ei fod wedi dod i ben o'r diwedd, ond roedd yna gymaint o bobl yma, ac fe deimlwn ei fod yn awyrgylch parti go iawn. Fe fwynheais i o'n fawr, mae hynny wedi aros efo fi, a dweud y gwir, ac roedd dogfennaeth yr agoriad hwnnw, o bobl yn dod i mewn ac roedd yn llawn ac fe ddaeth llawer o bobl nad oeddwn wedi'u gweld am amser maith ac felly roedd hynny'n wirioneddol braf hefyd, a chithau i gyd yn ffrindiau a theulu ac felly roedd yr agoriad yn farc i fyny i mi, yma yn y Mission.

[Kate Haywood] - Rwy'n meddwl mai'r agoriad yn Rhuthun gan mai dyma'r tro cyntaf. Y broses o osod y gwaith efo chi, fe ddysgais i gymaint gennych chi, ac yna dyma'r tro cyntaf i chi weld y gwaith i gyd efo'i gilydd, oherwydd fy ngwaith i, rwy'n tybio ei fod fel antholeg, yn y ffordd y byddwch yn darllen rhwng y darnau, ac fe ddysgais i gymaint bryd hynny. Ac yr oedd mor arbennig cael Alex a Sharon yna, a oedd wedi ysgrifennu darnau ar gyfer y catalog, ac maen nhw wedi bod mor gefnogol a maethol â'm harfer i drwy gydol y flwyddyn gyfan. I gael y bobl arbennig hynny i gyd efo'i gilydd … teimlwn yn falch o'r gwaith… roeddwn yn teimlo fy mod wedi fy nghyffwrdd go iawn fod pawb yno ac yn fy nghefnogi i.

[Justine Allison] - Fy un i oedd yr agoriad yma hefyd, roedd yna laweroedd o bobl… dim ond i weld hyn. I ddim ond dod i mewn a gweld, roeddwn i'n wirioneddol nerfus ynglŷn ag o, roeddwn i'n wirioneddol nerfus ynglŷn â siarad, credwch neu beidio - nid yw'n beth naturiol iawn i mi. Fe wyddoch y gallaf wneud llawer o bethau, ond i bobl wrando arnaf i …. Ac fe feddyliais gyda dod â hyn i gyd at ei gilydd a nifer y bobl a ddaeth yno, roeddwn wedi fy synnu'n llwyr … Meddyliais y byddai fy merch a Mark yn dod a dyna fo… a'r sylwadau a dim ond beth oedd y bobl yn ei ddweud ac felly hefyd yn Rhuthun, rwy'n meddwl, â dim ond y bobl a oedd yna a'r gefnogaeth. Ie, ond yma, roedd yn arbennig iawn yma felly diolch.

[Anna Noël] – Mae'n debyg mai'r agoriad yma oedd yr un gorau i mi.

[Ceri Jones] – Awyrgylch hyfryd

[Anna Noël] – Oedd, yr oedd o, dim ond gweld y gwaith efo'i gilydd am y tro cyntaf, yn y gofod hyfryd hwn, felly diolch am roi sioe i mi yma.

[Ceri Jones] – Mi allaf i weld dy eifr di rŵan yn dringo eu mynyddoedd yn y canol, roedd o'n hardd.

[Micki Schloessink] –Rwy'n meddwl y byddai'n rhaid i mi ddweud yr un peth, yr agoriad yma, ac rwy'n meddwl fod pawb wedi ymroddi, fel y dywedi di, i'r clai. Roeddwn i'n meddwl 'hei, rydw i yma ac mae arnaf i eisiau siarad' a hwythau'n meddwl 'rydyn ni mor brysur'... roedd hynny'n hwyl. Roedd yn beth eithaf hwyliog.

[Anne Gibbs] - Mae'n rhyfedd, rydw i ond yn cofio'n awr - ar y diwrnod cyntaf fod y lle'n llawn o bobl nad oeddwn wedi'u gweld am sbel ac roedd yn hyfryd, a daeth y wraig hon ataf i a dweud 'Rydw i'n awyddus i ofyn i chi beth yw enw lliw'r paent sydd gennych chi yma gan y byddai'n edrych yn hyfryd yn fy nghegin i', a meddyliais fy mod wedi treulio blwyddyn gyntaf yn gwneud ac mae arnoch chi eisiau gwybod beth yw lliw'r paent… Allwn i ddim coelio hynny ac meddwn innau 'Dydw i ddim yn cofio'. Roeddwn yn meddwl fod clywed hynny'n ddigri.

[Ingrid Murphy]- A hefyd, un o'r pethau neis a grybwyllaist ti am sylwadau, ond wedyn, pan ddewch chi i'w diwedd, roeddwn i yn Tsieina erbyn yr amser y daeth y sioe yn Aberystwyth i lawr ac fe gyrhaeddodd y cwbl yn ôl yn fy stiwdio i pan oeddwn i ffwrdd. Yna, rywbryd yn Awst, fe ddywedon nhw 'ac o, gyda llaw, fe wnaethon ni gymryd ffotograffau o'r holl sylwadau ar y sioe ac fe wnawn eu hanfon atat ti fel pdfs'. A hynny, wedi'r cwbl, oedd un o'r uchafbwyntiau gorau, gan fod yna'r holl sylwadau hynny gan blant ac fe wnaethon ni eu perswadio nhw i newid lliw'r papur sylwadau ar gyfer yr amser pan fyddai'r ŵyl ymlaen, oherwydd gallech ddweud y gwahaniaeth rhwng cynulleidfa wybodus a chynulleidfa anwybodus… Roedd mor ddiddorol oherwydd, ar yr adeg honno, rydych chi i ffwrdd mewn gofod arall, mewn amgylchedd arall, mae fel pe bai'r cwbl yn freuddwyd. Byddwch fel pe baech yn anghofio ei fod wedi digwydd o gwbl ac yn sydyn rydych yn darllen y sylwadau hyn i gyd ac roedd hynny'n uchafbwynt go iawn … a do, fe ddigwyddodd hynny ac yr oedd rhywun yn ei hoffi…

[Justine Allison] – Rwy'n meddwl fod pob lleoliad â rhywbeth gwahanol. Rhuthun, eto roedd yn deimlad gwirioneddol ryfeddol bod yno, roedd yna rywfaint o ddatgysylltiad â rhai o'r lleoedd eraill, dim ond oherwydd yr amser a dreuliwyd yno. Fe dreuliais dipyn go lew o ddyddiau yn Rhuthun ac rwy'n meddwl, o gael yr agoriad ac Andrew Logan, roedd yn wirioneddol hyfryd hefyd...Pobman, y cwbl yn wahanol… 'Doedd yna ddim agoriad yn Aberystwyth dydw i ddim yn meddwl…

[Ceri Jones] – A beth pe bai … pe bai Iaith Clai i ddyfalbarhau mewn rhyw ffurf neu ryw endid, a ydyn ni'n meddwl y gallai hynny fod yn beth manteisiol, ac unrhyw feddyliau a allai Iaith Clai esblygu yn y dyfodol? Efallai y dywedech chi, oni fyddai hynny'n beth da pe bai… neu pam na wnawn ni o fel hyn….Unrhyw syniadau o ran a allai fod yn fenter a allai weithio?

[Ingrid Murphy] – Wel, mae'n ddiddorol iawn… os edrychwch chi ar draws yr ystod o waith a gynhyrchwyd gennym ni i gyd, mae'n sioe arsylwi ddiddorol iawn o artistiaid gweithredol…

[Micki Schoessingk] – Roeddwn i'n meddwl hynny heddiw…

[Ingrid Murphy] – Wn i ddim a wnaethoch chi grybwyll hynny cyn i mi ddod i mewn… roedd yn wirioneddol amlwg i mi ein bod ni i gyd yn ferched ac rwy'n meddwl fod gennych chi ddau ffactor cryf iawn yna sy'n gwneud i mi feddwl pe baech i fynd â hynny ymlaen y dylai hynny fod yn sail i fynd ag o ymhellach ac efallai ei amlygu ychydig mwy oherwydd eu bod eu dau'n bethau sydd angen eu hamlygu fel ehangder yr arfer sydd gennym ni mewn serameg a hefyd fod yr artistiaid benyw'n cael amser anodd o hyd, wyddoch chi… Rwy'n meddwl eu bod yn ddau bositif go iawn oherwydd byddai pa amlygiadau bynnag y byddai'n eu bwrw ymlaen yn rhywbeth gwirioneddol dda. Rwy'n meddwl hefyd na ellir tanbrisio'r agwedd addysgol. Byddai hynny'n beth hynod dda hefyd. Mae gennym ni'r ddogfennaeth ffantastig yma rŵan hefyd a gall hynny wneud adnoddau dysgu ffantastig yn ogystal ag adnoddau archifol. Pethau na ddylid eu methu – yr hyn sydd gennym ni a chyfnerthu hynny hefyd.

[Justine Allison] – Rwy'n meddwl ei bod yn wirioneddol bwysig… iddo barhau, iddo dyfu'n gyfleoedd eraill ac i amlygu serameg benywaidd. Oedd hynny'n fwriadol?

[Ceri Jones] – Wnes i ddim cychwyn drwy feddwl hynny, ond fe ddigwyddodd felly, fod gen i restr hirach ryfeddol o artistiaid y byddwn i wedi mwynhau gweithio â nhw, i wneud sioeau solo â nhw, ac roedd yna ambell i ddyn yno. Ond wedyn, o sgwrsio â chydweithwyr yn y Mission: Rhian a Philip, yr holl leoliadau a oedd yn ymglymedig ac yna eu distyllu i hyn fel rhestr fer uchaf, dyna pryd y sylweddaolais mai merched oedd y cwbl.

[Micki Schloessingk] – Felly yn y pwynt hwnnw, nid prinder dynion oedd o…

[Ceri Jones] – Roeddwn i'n cael fy ngyrru gan y gwaith a'r arferion... ac roeddwn i wedi gweld rhai ohonoch chi o bell neu wedi eich edmygu o bell ac eraill roeddwn yn eu hadnabod ychydig yn well. Dyna pryd y teimlai fel "merched ydyn nhw i gyd, onid ydi hynny'n ardderchog?" ac yna daeth yn fwy o ffocws ond o fynd drwyddyn nhw a siarad amdano â phobl eraill, fe fu'n ddiddorol iawn ers hynny: nifer y bobol sy'n dweud 'pryd fydd yna ddynion yn cael caniatâd i ddod i mewn?' Nid oedd o mor ymwybodol â hynny ond, a dweud y gwir, mae'n gryfder gwirioneddol.

[Ingrid Murphy] – Mae'n gryfder gwirioneddol ac rwy'n meddwl ei fod yn dangos demograffeg yr arfer serameg yng Nghymru. Ond mae'n wirioneddol ddiddorol wedyn oherwydd os oes yna amrywiaeth yn yr arfer does dim angen cael yr amrywiaeth a'r genedl hefyd, os gwyddoch chi beth rydw i'n ei olygu. Mae'n ddiddorol oherwydd os rhowch chi'r faner honno yn y tywod, a fyddai pobl yn … Wn i ddim a ddylai hynny fod yn flaenaf 'Merched mewn serameg' ond mae'n rhywbeth sy'n isganfyddol, bydd fel pe bai'n dod yn hunaneglur wrth i chi fynd o gwmpas y sioeau.

[Ceri Jones] – Y cwbl yn wych!

[Ingrid Murphy] – Ond mae gwneud hyn hefyd yn ddiddorol oherwydd wrth glywed am brofiadau gwahanol bobl, positif, negyddol a phethau, dyna lle bydd y dysgu go iawn yn digwydd, ynte.

[Justine Allison] – Bydd hefyd yn ei gadw i fynd, rwy'n meddwl, y gadwyn feddwl honno, bydd y drafodaeth yn parhau os bydd hyn yn parhau hefyd. Yn enwedig os meddyliwch chi am yr arfer crefft yng Nghymru – mae'n rhyfeddol, mae angen iddo barhau, mae angen mynd ag o allan yna, dyna pam fod hyn yn wirioneddol bwysig. Roedden nhw i gyd yng Nghymru, ond fe aeth allan, mae pobl yn gwybod amdano.

[Ingrid Murphy] – ac rwy'n meddwl mai'r hyn sy'n wirioneddol bwysig yw y gallwch roi pin yn amserlin gyrfaoedd pobl, rydyn ni wedi cael profiad a rennir er nad ydyn ni wedi dangos gyda'n gilydd, mae'n wirioneddol ddiddorol pan fyddwch yn rhoi'r un cyfle i rywun ond ar wahanol adegau yn eu

gyrfa, yn eu bywyd.  Mae'n wirioneddol ddiddorol dilyn hynny drwodd, fel astudiaeth ethnograffeg o'r ffordd y bydd pobl yn gweithio go iawn ar draws yr arfer, gwirioneddol ddiddorol.  Rydyn ni i gyd yn ferched, i gyd yn byw yng Nghymru, i gyd yn gweithio mewn serameg ond y tu hwnt i hhyny mae gennym ni amrywiaeth a chymhlethdod anhygoel.  Felly fe fydd yn astudiaeth ddiddorol.

[Ceri Jones] - Ac roedd hynna'n ystyriaeth bwysig, a dweud y gwir… ardderchog, diolch.